# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 1

TROSOLWG

### 1 Trosolwg

(1) Mae'r Ddeddf hon yn ffurfio rhan o god o gyfraith sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru.

(2) Mae'n cydgrynhoi deddfiadau a gynhwysir yn y canlynol neu a wneir odanynt—

- (a) Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion Hynafol 1953 (p. 49);
- (b) Rhannau 1 a 3 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (p. 46);
- (c) Rhannau 14 a 15 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8);
- (d) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p. 9);
- (e) Rhan 5 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5);
- (f) Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (dccc 4).

(3) Mae Rhan 2 o'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth ynghylch cadwraeth henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer—

- (a) cofrestr o henebion o bwysigrwydd cenedlaethol, a gynhelir gan Weinidogion Cymru,
- (b) rheolaethu gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig, ac
- (c) caffael henebion, gwarcheidiaeth henebion a diogelu henebion.

(4) Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch cadwraeth adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer—

- (a) rhestr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, a gynhelir gan Weinidogion Cymru,

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, RHAN 1. (See end of Document for details)*

(b) rheolaethu gwaith sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig, ac
(c) caffael a diogelu adeiladau.

(5) Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch ardaloedd cadwraeth, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer—
(a) dynodi ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yn ardaloedd cadwraeth gan awdurdodau cynllunio,
(b) rheolaethu gwaith ar gyfer dymchwel adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth, ac
(c) diogelu ac atgyweirio adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth.

(6) Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth atodol sy'n ymwneud â Rhannau 3 a 4, gan gynnwys—
(a) darpariaeth ynghylch achosion gerbron Gweinidogion Cymru o dan y Rhannau hynny, gan gynnwys gwrandawiadau ac ymchwiliadau;
(b) darpariaeth ynghylch dilysrwydd penderfyniadau a wneir o dan y Rhannau hynny a chywiro'r penderfyniadau hynny.

(7) Mae Rhan 6 yn darparu ar gyfer—
(a) cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol;
(b) rhestr o enwau lleoedd hanesyddol;
(c) cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal yng Nghymru.

(8) Mae Rhan 7 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol, gan gynnwys diwygiadau i ddeddfiadau eraill a diddymiadau deddfiadau eraill.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar 15.6.2023, gweler **a. 212(1)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, RHAN 1.